

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Geraint Williams (Henllan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd. Cyflwynwn hwy i ofal Duw, gan hyderu y cânt adnabod Ei heddwch a'i dangnefedd.
- Mae John H. Williams (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Helen Pritchard (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd, er ei bod yn gobeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf. Cyflwynwn y ddau a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn i ofal tyner ein Duw gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych); Miss W J Roberts a Mrs Kate Owen, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

I ddod

- **DYDD GWEDDI BRO ALED** – Byddwn yn cynnal dydd gweddi arbennig dros Eglwys Bro Aled dydd Mercher, Gorffennaf 12fed. Bydd rhai yn gweddio trwy'r dydd yn y Festri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan, gyda chroeso i bobl daro i mewn i ymuno neu yrru ceisiadau gweddi atom. Gwnawn hyn er mwyn gofyn am arweiniad Duw a gweddio ar i ewyllys y Tad gael ei wneud ar y ddaear fel yn y nef. (Mathew 6:10)
- **TAITH GERDDED I'R OFALAETH** – wedi ei ail drefnu ar gyfer nos Fercher, Gorffennaf 19eg yn ardal Henllan (*gan obeithio y bydd y tywydd yn well erbyn hynny!*) Cychwyn o fuarth Capel Henllan am 6.30.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuenctid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 31-Awst 4
 - **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 14-17
 - **Souled Out (15+):** Awst 19-24*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*
- **CYFARFOD GWOBRAWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Iau, Medi 28ain yn Eglwys Emaus, Bangor am 3.00.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Gorffennaf 2017

Darlleniad y Dydd

Luc 11:5-10

(BCND tud.78 / BCN tud.71)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon ar hyd y fro heddiw. Fel tîm, gobeithiwn y byddwn fel Bro yn dod i adnabod yr Arglwydd yn well ac yn dod i brofi'r heddwch dwfn sydd i'w gael trwy berthynas gydag Ef.

Tybed faint ohonom sydd wedi cael ein siomi gan rywun neu rywbeth wythnos yma? Dychmygwch y sefyllfa: rydych yn gofyn i ffrind i wneud rhywbeth i chi, ond dydy nhw ddim yn ei wneud, neu yn anghofio amdano; rydych wedi blino un noson ac yn ffonio rhywun i gael sgwrs – ond does dim ateb. Dwi'n siŵr fod pob un ohonom ni wedi bod drwy brofiad fel hyn yn ein bywydau os nad yr wythnos hon. Dydy siom ddim yn deimlad neis iawn. Fe aiff yn waeth os ydy'r ffaith bod rhywun wedi ein gadael ni i lawr yn arwain at sefyllfa anodd neu straen i ni.

Tybed wedyn, faint ohonom sydd wir yn ystyried beth sy'n cael ei ddweud yn nechrau Gweddi'r Arglwydd – sy'n rhagflaenu ein darlleniad ni heddiw yn Luc 11. Mae Iesu yn galw yr Arglwydd yn Dad, ac yn gorchymyn i'w ddisgyblion wneud yr un peth. Dyna pa mor agos ydy'r berthynas rhwng Cristnogion a'r Arglwydd. Rydym i ddod at y Tad fel mae plentyn yn dod at ei dad – yn gwbl ddibynol arno ac yn gwbl hyderus yn ei allu i ddatrys unrhyw sefyllfa sy'n codi. 'Sgwn i faint ohonom sy'n edrych ar ein cerddediad gyda'r Arglwydd yn y modd agos, hynod o bersonol yna? A oes gennym ni hyder go iawn fod y Tad yn gallu datrys unrhyw sefyllfa a'i throi yn un sy'n ei ogoneddu o? Mae'n hawdd anghofio weithiau pa mor bwerus ydy Duw a pha mor groesawgar ydyw i'n gweddïau ni.

Mae'r ddameg yma yn dangos i ni fod Duw yn Dduw na fydd byth yn ein gadael i lawr – dim ots beth yw'r sefyllfa, dim ots pa mor dywyll ydy'r amgylchiadau, mae'r Arglwydd yn ateb ein gweddïau ni yn y ffordd gorau posib – trwy ddanfôn yr Ysbryd Glân i'n bendithio a'n hamddiffyn (Luc 11:8-9).

Felly heddiw, dewch i ni roi ein hunain yn wir mewn gweddi ac ymostwng ein hunain o flaen Yr Arglwydd. Mae o yn Dduw mor raslon, mor gariadus a mor bwerus. Fel mae'r emyn plant yn dweud: *Does dim y tu hwnt iddo Fe*. Tybed yn ddwfn, faint ohonom sydd yn credu'r geiriau fod dim y tu hwnt i'n Tad Nefol?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

Hosea 14:1-4 (BCND tud. 826 / BCN tud.752)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 2^{il} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu.
- Mawrth – 4^{ydd} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 6^{ed} ➤ **Diwrnod Gweddi** yng Ngholeg y Bala rhwng 10.00 y bore a 10.00 yr hwyr.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 7^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 (*sylwch ar y newid amser*). Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa fedydd yn Nantglyn am 2.00 pryd y bydd Arwyn a Sian Jones yn cyflwyno Magi Wyn i gael ei bedyddio.
- Mercher – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) HEDDIW, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.15.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ **Dathlu 150 mlynedd ers sefydlu Capel Llanefydd a 10 mlynedd ers addasu'r adeilad** – Oedfa Deuluol am **10.30** o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn a chinio'r dathlu i ddilyn yn y neuadd. Os oes gennych luniau neu atgofion, a fyddech gystal â'u rhannu efo un o'r blaenoriaid y penwythnos hwn, os gwelwch yn dda?

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.